

Ysgol Gynradd
Gatholig y Santes
Fair



Polisi Derbyn
Derbyn Disgyblion Meithrin
2019

**Dysgu a Charu
Gofalu a Rhannu
trwy
Neges Crist**



Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yn gymuned hapus lle rydym yn cael ein caru a'n gwerthfawrogi fel unigolion.

Fel Disgyblion yr Iesu, rydym yn dysgu gyda'n gilydd, gweddio gyda'n gilydd ac yn dathlu gyda'n gilydd fel un yng nghariad Duw.

Ynghyd â rhieni/gofalwyr, y plwyf a'r gymuned ehangach, rydym yn paratoi ein plant i fyw ac adeiladu teyrnas Duw ar y ddaear.

DERBYNIADAU I DDOSBARTHIADAU MEITHRIN YM MIS MEDI 2019

Mae Polisi Derbyn yr ysgol yn seiliedig ar ofynion y ddeddfwriaeth addysg cynradd ac uwchradd sydd mewn grym, ac yn arbennig:

Y Cod Derbyn i Ysgolion – Cod Statudol 005/2013, paragraffau 1.9 ac 1.10; 2.59 a 2.60 yn unig

Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion – Cod Statudol 007/2013

Dogfennau a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2013 ac Ionawr 2014 yn y drefn honno (Llywodraeth Cynulliad Cymru)

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988 - hawl dewis y rhieni (a86(1)) a'r hawl i apelio.

Y Ddeddf Addysg 2002 - diddymu'r hawl i gyfyngu mynediad yn seiliedig ar gyfran o blant o'r tu allan i'r grŵp ffydd

Y Ddeddf Addysg 2005 - blaenoriaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

Y Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44) - gwaharddiad ar gyfsweld rhieni a phlant.

Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006.

Cyhoeddir canllawiau anstatudol hefyd gan Esgobaeth Wrecsam.

DERBYNIADAU I'R DOSBARTH MEITHRIN YM MIS MEDI 2019

Nid yw'r gyfraith yng Nghymru yn mynnu bod plentyn yn dechrau'r ysgol tan ddechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Nid yw derbyn i'r dosbarth Meithrin yn unol â'r polisi hwn yn rhoi hawl i blentyn gael lle yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi 2020 oherwydd y bydd trefniadau gwahanol ar waith ar gyfer hynny.

Cynigir darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair mewn sesiwn hanner diwrnod yn y bore neu'r prynhawn (dwy awr a hanner y dydd) bum niwrnod yr wythnos. Derbynnir plant tair oed i'r dosbarth Meithrin ym mis Medi yn y Flwyddyn Ysgol pan fyddant yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed.

Ceir trefniadau yn y ddeddfwriaeth i ddelio â cheisiadau i blant gael eu derbyn i'r dosbarth Meithrin yn ystod y flwyddyn. Bydd

Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn ystyried y rhain fel y bo angen.

Bydd yr Ysgol yn derbyn 48 o blant, wedi'u trefnu yn 2 grŵp o 24 mewn sesiwn fore neu brynhawn, i'r dosbarth Meithrin heb unrhyw amodau ac ni waeth beth fo'u ffydd. Rhaid gwneud ceisiadau am le yn yr ysgol ar y ffurflenni priodol a'u dychwelyd i'r ALI a'r ysgol erbyn y dyddiad cyhoeddedig fan bellaf.

Mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael

Os bydd mwy o geisiadau na'r nifer derbyn, bydd y Panel Derbyn a benodwyd gan y Corff Llywodraethu'n defnyddio'r meini prawf isod, yn nhrefn eu blaenoriaeth:

1. Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig sy'n derbyn gofal cyhoeddus neu a oedd yn derbyn gofal cyhoeddus yn y gorffennol.
2. Plant sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal yn y gorffennol nad ydynt yn dilyn y ffydd Gatholig.
- 3 Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn i'r ysgol. Gall y brawd/chwaer fod yn frawd/chwaer llawn, yn hanner brawd/chwaer neu'n llysfrawd/chwaer ac mae hyn yn cynnwys rhai sydd wedi'u mabwysiadu neu wedi'i maethu. Bydd y trefniadau Derbyn yn sicrhau na fydd plant o enedigaeth luosog (gefeilliaid, tripled ac ati) yn cael eu gwahanu.
- 4 Plant a fedyddiwyd yn y ffydd Gatholig ym mhlwyfi Santes Fair Wrecsam, Llai (a'r Orsedd), Rhiwabon (a'r Waun a Llangollen); y plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae map o ardal tref Wrecsam sy'n cael ei gwasanaethu gan Blwyf Santes Fair ar gael wrth ofyn i'r Ysgol.

5. Plant Catholig a fedyddiwyd y gall eu hanghenion cymdeithasol a bugeiliol dybryd gael eu bodloni'n well gan yr ysgol.

Ar gyfer plant Catholig yng nghategoriâu 1, 3 a 4, bydd angen i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni a Thystysgrif Fedyddiol wreiddiol, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen bwrpasol gan Offeiriad y Plwyf.

Ar gyfer plant yng nghategori 5, bydd angen i'r Panel Derbyn weld tystiolaeth ategol oddi wrth feddyg, gweithiwr cymdeithasol neu'r AALI i ddangos pam mai'r ysgol hon yw'r fwyaf addas i'r plentyn.

6. Plant o ffydd Gristnogol eraill y mae eu rhieni yn wir awyddus iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig ac yn gwbl gefnogol i'w hethos Catholig.

Bydd angen i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni a Thystysgrif Fedyddiol wreiddiol, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen bwrpasol gan Offeiriad y Plwyf neu Weinidog Crefydd.

7. Plant o ffydd eraill y mae eu rhieni'n dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol. Bydd angen geirda ysgrifenedig gan Weinidog Crefydd/arweinydd ffydd perthnasol.

8. Plant y mae'r ALI wedi gofyn i'r ysgol roi lle iddynt.

Os bydd yna fwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw rai o'r categorïau uchod, bydd y Panel Derbyn yn cynnig lleoedd i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir hyn yn ôl y pellter byrraf rhwng y cartref neu'r fflat/ cyfadeilad rhandy a giât agosaf yr ysgol, gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus, ac fe'i cadarnheir gan y gronfa ddata a ddefnyddir gan Adran Gludiant yr ALI.

Os na ellir cynnig lle oherwydd y cafwyd mwy o geisiadau nag o leoedd, bydd yr ysgol yn cadw rhestr aros hyd at ddiwedd mis Medi.

Y Drefn ar gyfer Blwyddyn Dderbyn 2019

1. Bydd yr ysgol yn hysbysebu ei dyddiadau derbyn ym mhob un o'r plwyfi y mae'n eu gwasanaethu ym mis Medi 2018.
2. Gallwch gael gafael ar ffurflenni derbyn/dewis a'r ffurflen 'Gwybodaeth Ategol' gan offeiriad/ gweinidog y plwyf ar gyfer 2019 ar wefan CBSW ym mis Ionawr 2019. Dylech lenwi'r cais ar lein a dychwelyd y ffurflen gwybodaeth ategol i'r ysgol erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd fan bellaf.
3. Bydd yr Ysgol yn trefnu ymweliadau ymgyswrtu i rieni sydd wedi nodi Ysgol Santes Fair fel dewis: i rieni nad ydynt yn Gatholig bydd yr ymweliadau hyn yn cynnwys gwybodaeth am natur Gatholig yr ysgol, ei hethos a darpariaeth y cwricwlwm.
4. Hysbysir rhieni erbyn 10 Mai 2019* a neilltuwyd lle ai peidio.
*Y dyddiad hwn i'w gadarnhau gydag ALI Wreccsam.
5. Os yw eu cais yn aflwyddiannus, nid oes gan rieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod cynnig lle.

Nodiadau

1. Bydd angen i'r Corff Llywodraethu gadarnhau'r trefniadau ar gyfer derbyn yn **2019** erbyn 15^{fed} Ebrill 2018.
2. Mae'r Corff Llywodraethu eisoes wedi ymgynghori'n ffurfiol ar ei bolisi ar gyfer Derbyn yn 2018 gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne Wreccsam fel Awdurdod Derbyn yr ysgol, a gydag ALlau Wreccsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, ynghyd ag Esgobaeth Wreccsam.
3. Ni chododd yr ymgynghoriad ddim pryderon a fynnai bod y Corff Llywodraethu yn diwygio'r polisi.

4. Mae'r Polisi Derbyn ar gyfer 2019 yn union fel yr un a oedd yn flaenorol yn destun ymgynghoriad a bydd y Corff Llywodraethu felly yn penderfynu ar ei drefniadau Derbyn ar gyfer 2019 cyn 15 Ebrill 2018 a heb yr angen am ymgynghori pellach.

5. Bydd angen ystyried a phenderfynu ar y trefniadau ar gyfer mis Medi **2020** ac wedi hynny drwy gyfrwng yr un broses a'r un amserlen (yn amodol ar unrhyw amrywiad statudol). Mae'r Corff Llywodraethu wedi cytuno y bydd hon yn eitem Busnes Llywodraethwyr sefydlog mewn cyfarfod yn ystod Tymor yr Hydref ym mhob blwyddyn ysgol. Yn ddibynnol ar ganlyniad yr adolygiad blynyddol hwn, bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu'n ffurfiol a yw Ymgynghori yn unol â'r Rheoliadau yn briodol ai peidio.